Gwersylla yn ystod y dydd

Trosolwg

Trowch eich man awyr agored yn antur gwersylla yn ystod y dydd!
Gall y plant adeiladu gwersylloedd esgus, a chreu straeon i'w hadrodd o gwmpas tân gwersyll.



Gweithgareddau

Crëwch wersyll esgus yn yr awyr agored gan ddefnyddio tarpolins, blancedi, brigau a deunyddiau naturiol. Anogwch y plant i gydweithio er mwyn adeiladu cuddfannau neu lochesau, crynhoi deunyddiau ar gyfer "tân gwersyll", sylwi ar fywyd gwyllt a dyfeisio straeon gwersylla.
Ychwanegwch bropiau syml ar gyfer chwarae rôl, e.e. tortshis, mapiau, binocwlars, cwpanau neu eitemau picnic, er mwyn ymestyn y chwarae.
Gall oedolion hybu syniadau'r plant, gan adael i'r antur ddatblygu'n naturiol drwy ddychmygu ac archwilio.

Offer

- Blancedi, cynfasau, rhwydi
- Pegiau, rhwymau bynji, clipiau
- Brigau mawr, boncyffion, cerrig
- Mapiau, sachau cefn, hetiau
- Fflasg, byrbrydau, siocled poeth

Cwestiynau allweddol

Ble byddwch yn adeiladu eich gwersyll?
Beth sydd ei angen arnoch i oroesi yn ystod eich antur?
Pwy gallech ei ddarganfod yn yr awyr agored?
Beth gallwch ei fwyta?

Deilliannau dysgu

Mae'r plant yn datblygu hyder drwy chwarae rôl a chael profiadau cyffredin, ac maent yn archwilio byd natur drwy adrodd stori. Mae'r gweithgaredd hefyd yn annog gwydnwch, chwilfrydedd a chreadigrwydd wrth i'r plant adeiladu, esgus a chymryd rhan mewn profiadau awyr agored dychmygus a ysbrydolir gan anturiaethau gwersylla go iawn.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Os ydynt yn hyderus, gall y staff gyflwyno gweithgareddau tân diogel, e.e. pobi bara ar frigau neu goginio malws melys.
- Beth byddai angen i chi ei wneud i sicrhau bod eich gwersyll yn gallu goroesi tywydd garw?